**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

21 Mawrth 2025

Annwyl Huw

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025

Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2025, ystyriodd y Pwyllgor eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2025 mewn perthynas â'ch bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025 (Rheoliadau Rhif 2). Sylwaf o'ch llythyr dyddiedig 12 Mawrth 2025 ichi roi eich cydsyniad wedi hynny, a bod Rheoliadau Rhif 2 wedi'u gwneud a'u gosod ar 11 Mawrth 2025.

Nododd y Pwyllgor eich datganiad yn eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth fod y Farwnes Hayman o Ullock wedi ysgrifennu atoch ar 8 Ionawr 2025 i ofyn am eich cydsyniad i Reoliadau Rhif 2. O ystyried bod amseriad eich llythyr yn golygu mai dim ond cyfnod cyfyngedig iawn a roddwyd i'r Senedd i fynegi barn cyn i'ch cydsyniad gael ei roi'n ffurfiol, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael eglurhad ynghylch pam nad oedd modd ichi gyfleu eich bwriad i gydsynio i'r Pwyllgor yn gynharach.

Nododd y Pwyllgor hefyd eich esboniad nad oedd Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 (eu teitl ar y pryd), a gymeradwywyd gan Senedd y DU ar 4 Rhagfyr 2024, wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar adeg eich llythyr. Aethoch ymlaen i ddatgan yn eich llythyr y byddai'r rheoliadau hyn: yn cael eu gwneud ar 11 Mawrth; yn dod i rym 21 diwrnod yn ddiweddarach ac yn union cyn Rheoliadau Rhif 2; ac y byddent yn cael eu hailenwi'n Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2025. Mae'n ymddangos i ni fod llawer iawn o amser wedi mynd heibio rhwng cymeradwyo'r rheoliadau hyn yn Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn eu gwneud. Yn hyn o beth, byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r hyn rydych yn ei ddeall ynghylch pam y digwyddodd hyn, a'r sail gyfreithiol dros oedi o'r fath, er budd tryloywder a hyrwyddo deddfu da.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb ar y ddau fater hyn erbyn 23 Ebrill 2025.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd